

Tynwyr dŵr nad ydynt yn cynhyrchu ynni dŵr: Canllawiau ar gyfer cwblhau eich datganiad tynnu dŵr papur

Beth yw'r ffurflen ddatgan?

Dyluniwyd y ffurflen ddatgan i'ch galluogi i roi gwybodaeth i ni am eich meintiau tynnu dŵr gwirioneddol mor gywir ac effeithlon â phosibl.

Pa rannau o'r ffurflen mae'n rhaid i mi eu llenwi?

Mae'n rhaid i chi gwblhau pob adran berthnasol o'r ffurflen.

Sylwch: gallwn dderbyn y ffurflen ddatgan a ddarparwyd yn unig.

Canllawiau i'ch helpu i gwblhau eich datganiad

Mae nifer o'r blychau wedi eu llenwi'n barod fel y crynhoir isod.

Tabl 1: Crynodeb o'r blychau wedi eu llenwi'n barod

Adran	Blwch	Gwybodaeth
Brig y ffurflen ddatgan (wrth ymyl y logo)	Rhif adnabod y datganiad	Rhif adnabod y datganiad. Bydd gan bob datganiad rif adnabod a grëwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r cyfuniad o rif trwydded a rhif adnabod y datganiad yn sicrhau bod y datganiad yn unigryw. Os oes gofyn i chi gyflwyno mwy nag un datganiad fesul trwydded, byddwch yn derbyn taenlenni datgan amryfal ac arnynt wahanol rifau adnabod. Mae'n bwysig eich bod yn cofnodi'r data ar y ffurflen gywir. Bydd yr adran 'Manylion y gweithredwr a'r safle' (gweler isod) yn eich helpu i adnabod y ffurflen gywir.
Pennyn y ffurflen (cyfnod y datganiad)	Dyddiad dechrau cyfnod y datganiad	Dyddiadau dechrau a diwedd y cyfnod y gofynnir am ffurflenni dychwelyd.
	Dyddiad diwedd y cyfnod dychwelyd	
	Dyddiad cyflwyno	Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno datganiad.

1. Manylion y gweithredwr a'r safle	Enw'r safle	Crynodeb o'r pwynt(iau) tynnu dŵr sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad.
	Rhif trwydded	Rhif y drwydded tynnu dŵr y mae'r datganiad yn ymwneud â hi.
	Tariff dwy ran	Yn dangos a yw cytundeb tariff dwy ran yn berthnasol i'r datganiad (trwyddedau dyfrhau yn unig).
	Diben	Y diben(ion) trwyddedig sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad.
2. Manylion cyswllt y datganiad	Teitl	Manylion cyswllt ar gyfer datganiadau ac ymholiadau perthynol ym meddiant Cyfoeth Naturiol Cymru. Sylwch: gallai hyn fod yn wahanol i ddeiliad y drwydded.
	Enw cyntaf	
	Cyfenw	
	Ffôn	
	E-bost	

Mae'r ffurflen hon hefyd yn cynnwys blychau gwag fel y crynhoir isod. **Mae'n rhaid i chi gwblhau'r holl flychau gwag perthnasol.**

Tabl 2: Crynodeb o'r blychau gwag

Adran	Blwch	Gwybodaeth ofynnol
3. Datganiad 'dim'	Datganiad 'dim'	<p>Dewiswch 'le' neu 'Na' i nodi a ydych yn cyflwyno datganiad 'dim'. Mae datganiad 'dim' yn dangos nad oes unrhyw ddŵr wedi cael ei dynnu yn ystod cyfnod y datganiad tynnu dŵr.</p> <p>Os ydych yn cyflwyno datganiad 'dim', parhewch i Adran 10 (datganiad).</p> <p>Os nad ydych yn cyflwyno datganiad 'dim', cwblhewch weddill y ffurflen ddatgan.</p>
4. Manylion mesuriad	A ddefnyddiwyd mesurydd dŵr?	<p>Dewiswch 'Do' neu 'Naddo' i nodi a ddefnyddiwyd mesurydd dŵr i fesur y dŵr a dynnwyd.</p> <p>Os 'Naddo' yw'r ateb, rhowch fanylion o ddull asesu arall yn Adran 4.2.</p>
4.1 Manylion y mesurydd dŵr	Enw gwneuthurwr y mesurydd	<p>Os 'Do' yw'r ateb, rhowch fanylion y mesurydd dŵr yn Adran 4.1. Os ydych wedi defnyddio mwy nag un mesurydd yn ystod cyfnod y datganiad tynnu dŵr, rhowch enw gwneuthurwr a rhif cyfresol un mesurydd yn unig a rhowch wybodaeth bellach i egluro'r defnydd a wnaed o fesuryddion ar daflen(ni) ar wahân a'i/a'u dychwelyd ynghyd â'ch datganiad (gweler Adran 5).</p>
	Rhif cyfresol	

4.2 Manylion yr asesiad		Os na ddefnyddioch fesurydd dŵr, nodwch yn glir y dull asesu a ddefnyddiwyd mewn perthynas â'r meintiau tynnu dŵr. Os yw'n angenrheidiol, rhwng unrhyw wybodaeth bellach ofynnol fel taflen(ni) ar wahân a'i/a'u dychwelyd ynghyd â'ch datganiad (gweler Adran 5).
5. Gwybodaeth bellach	A ydych yn atodi gwybodaeth bellach?	Dewiswch 'Ydw' neu 'Nac ydw' i nodi a ydych yn darparu unrhyw wybodaeth bellach. Os 'Ydw' yw'r ateb, dilynwch y nodiadau yn yr adran hon sy'n manylu sut y dylid rhoi'r wybodaeth hon.
6. Darlleniad cychwynnol y mesurydd	Dyddiad	Cwblhewch yr adran hon dim ond os ydych wedi defnyddio mesurydd dŵr.
	Darlleniad	Nodwch y dyddiad a darlleniad cychwynnol y mesurydd ar gyfer cyfnod y datganiad tynnu dŵr.
7. Llinellau'r datganiad	Darlleniadau mesurydd / Cyfeintiau gwirioneddol y dŵr a dynnwyd	Nodwch a yw'r data a ddarperir yn ddarlleniadau mesurydd neu'n gyfeintiau gwirioneddol y dŵr a dynnwyd.
	Unedau mesur (metrau ciwbig / litrau / galwyni)	Nodwch yr uned fesur ar gyfer y data a ddarperir. Sylwch: metrau ciwbig, litrau neu alwyni yn unig sy'n dderbyniol. Bydd angen i ddarlleniadau mesurydd neu gyfeintiau dŵr a dynnwyd sydd wedi eu cofnodi/asesu mewn unedau eraill gael eu trosi cyn iddynt gael eu cofnodi.
	Tabl manylion y prif ddatganiad – darlleniadau mesurydd / cyfeintiau gwirioneddol y dŵr a dynnwyd (Colofn 2)	Nodwch ddarlleniad y mesurydd neu gyfaint gwirioneddol y dŵr a dynnwyd yng Ngholofn 2 y tabl yn erbyn pob dyddiad perthnasol a lanwyd yn barod. Ar ôl cyflwyno'r ffurflen ddatgan, byddwn yn ystyried bod unrhyw flychau gwag yng Ngholofn 2 yn cynrychioli sero.
	Tabl manylion y prif ddatganiad – dangosydd amcangyfrifedig (Colofn 3)	Nodwch gan ddefnyddio 'Ie' neu 'Na' a yw pob cofnod yng Ngholofn 2 y tabl yn ffigurau amcangyfrifedig.
8. Darlleniad terfynol y mesurydd	Dyddiad	Cwblhewch yr adran hon dim ond os ydych wedi defnyddio mesurydd dŵr.
	Darlleniad	Nodwch y dyddiad a darlleniad y mesurydd ar gyfer y tyniad olaf yn ystod cyfnod y datganiad tynnu dŵr.

9. Cyfanswm y dŵr a dynnwyd	Y cyfanswm a dynnwyd	Amcangyfrifwch a darparwch gyfanswm y dŵr a dynnwyd yn ystod cyfnod y datganiad tynnu dŵr gan ddefnyddio'r un unedau mesur a ddewiswyd yn Adran 7.
10. Datganiad	Llofnod	Llofnodwch i gadarnhau eich bod wedi darparu data cywir.

Cyflwyno'ch ffurflen ddatgan

Defnyddiwch y 'Rhestr Wirio Cwblhau' ar waelod y ffurflen ddatgan i wirio bod yr holl wybodaeth ofynnol wedi cael ei darparu. Anwybyddwch y testun 'Creu XML / Create XML', sy'n berthnasol ar gyfer datganiadau electronig yn unig.

Pan fydd eich ffurflen wedi'i chwblhau, anfonwch hi yn yr amlen a ddarparwyd at:

Canolfan Gofal Cwsmeriaid
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

Sicrhewch eich bod wedi talu'r costau cludo cywir.

Fe'ch cynghorir yn gryf i gadw copi o'r datganiad er gwybodaeth yn y dyfodol, neu pe bai ymholiad ynghylch eich datganiad.

Cyn anfon eich datganiad, sicrhewch eich bod wedi amgáu unrhyw wybodaeth bellach gan ddilyn y canllawiau a ddarperir yn Adran 5 o'r ffurflen ddatgan.

Nid ydym yn anfon neges i gydnabod ein bod wedi derbyn ffurflenni, ond byddwn yn cysylltu cyn gynted â phosibl os bydd ymholiad ynghylch eich datganiad.

Cwestiynau

Os nad ydych yn cytuno ag unrhyw ran o wybodaeth y datganiad sydd wedi'i llenwi'n barod, mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni. Os bydd unrhyw rai o'r manylion hyn yn anghywir neu os oes gennych ymholiad ynghylch eich ffurflen ddatgan, cysylltwch â ni drwy ddefnyddio cyfeiriad Canolfan Gofal Cwsmeriaid Cyfoeth Naturiol Cymru uchod, trwy anfon e-bost at waterresources.returns@naturalresourceswales.gov.uk, neu dros y ffôn ar 0300 065 3000.